

Paned a Mins Peis

Bydd ieuentid Dwylo Pysur yn cynnal Noson Paned a Mins Peis yng Ngharmel rhwng 6.30 a 8.30 o'r gloch nos Wener, Tachwedd 30, gyda byrddau gwerthu a'r elw at Apêl Madagascar.

Mwy na Llyfr

Fe gyrhaeddodd sicc fach acw'r dydd o'r blaen. Sicc am swm bychan iawn oedd hi i'r Ofalaeth oddi wrth gynllun 'More Than A Book' Cymdeithas y Beibl. A dyma finnau'n cofio nad wyf wedi sôn am y cynllun hwn ers tro byd.

Os oes unrhyw un yn prynu llyfr neu nwyddau eraill o wefan Cymdeithas y Beibl (Bible Society) mae'n bosibl i'r Ofalaeth gael 10% o'r arian a wariwyd gennych. Mae'n ddigon hawdd trefnu hyn. Y cwbl sydd angen ei wneud ydi pwyso'r tab 'More Than A Book' ar y dudalen 'Your Basket' cyn i chi dalu am y nwyddau. Wedi pwyso ar 'More Than A Book', chwiliwch yn rhestr yr eglwysi (trwy ddewis 'Wales' ac yna 'Gwynedd') am yr Ofalaeth dan yr enw 'Gofalaeth Unedig Deiniolen', a phwyso ar hwnnw. [Rydym yn dal i ddefnyddio hen enw'r Ofalaeth ar gyfer y cynllun ar hyn o bryd, ond mi rof wybod i chi os llwyddwn i'w newid i'r enw newydd cyn bo hir.]

Felly, os byddwch yn prynu o'r wefan hon, cofiwch fod modd cael arian nôl i'r

Y mis nesaf - Deiniolen

Oedfaon yn Nhy Elidir

Tachwedd 25

5.00 p.m. - Y Parchg Geraint Roberts

Rhagfyr 2

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Rhagfyr 9

5.00 p.m. - Y Parchg Cledwyn Williams

Ofalaeth. Swm bychan a gawn, ond o geiniog i geiniog yr â'r arian yn bunt.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Sul, Tachwedd 25: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch yn **Nhŷ Elidir** gan y Parchg Geraint Roberts.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Wener, Tachwedd 23: CIC am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Tachwedd 25: Cynhelir Oedfa Deulu am 10.30 o'r gloch.

CARMEL

Dydd Llun, Tachwedd 19: Te Bach am 2.30 o'r gloch.

Nos Wener, Tachwedd 23: Cynhelir cyfarfod Dwylo Pysur am 6.30 o'r gloch.

Sul, Tachwedd 25: Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

BETHLEHEM

Sul, Tachwedd 25: Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

REHOBOTH

Sul, Tachwedd 25: Ni chynhelir oedfa.

Y mis nesaf - Llanberis

Tachwedd 25

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Rhagfyr 2

10.00 a.m. - Y Parchg G Williams

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Parti Bytholwyrdd

Rhagfyr 9

10.00 a.m. - Y Gweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00p.m. - Y Gweinidog

Gofalaeth Fro'r
Llechen Las

Rhif 775
18 Tachwedd, 2018
Gronyn



Rhyddhau Aasia Bibi

Os cofiaf yn iawn, aeth saith mlynedd heibio ers i mi gyfeirio mewn erthygl at Aasia Bibi. Yn Y Pedair Tudalen yn y papurau enwadol yr oedd yr erthygl honno ym mis Mawrth 2011, nid yn *Gronyn*. Nid pawb ohonoch felly a'i gwelodd; ac mae'n bosibl nad yw rhai ohonoch a'i gwelodd yn cofio beth a ddywedwyd na phwy yw Aasia Bibi.

Mae saith mlynedd yn amser hir, ac mae llawer iawn wedi digwydd ar draws y byd ers mis Mawrth 2011. Ond bu Aasia Bibi mewn carchar ym Mhacistan gydol yr amser hwnnw. Cafodd ei charcharu ganol 2009; ac ym mis Tachwedd 2010 fe'i dedfrydwyd i'w chrogi. Roedd wedi ei dyfarnu'n euog o dorri Deddf Cabledd ei gwlad, wedi iddi gael ei chyhuddo o ddirmygu'r proffwyd Mohammed. Cristion o Babydd yw Aasia Bibi, ac mae wedi dadlau ar hyd yr amser na ddywedodd y geiriau a briodolwyd iddi gam y rhai a'i cyhuddodd. Ond hyd yn oed pe byddai'n euog mae'r syniad y dylid dienyddio rhywun am ddweud rhywbeth yn erbyn unrhyw grefydd yn gwbl wrthun. Petai pawb yng Nghymru sy'n cablu trwy gymryd enw Iesu Grist yn ofer yn cael eu dienyddio, fyddai fawr neb ohonom ar ôl.

Dros y blynyddoedd, fe ddiodeffodd Aasia Bibi gamdriniaeth yn y carchar, a bu ei bywyd hi a'i theulu mewn perygl gwastadol. Cafodd hanes y Babyddes hon o Gristion gryn sylw yn y wasg Gristnogol a'r wasg secwlar ers iddi gael ei dedfrydu.

Bu llawer o weddio drosti ar draws y byd. Wedi'r holl ddiodeff, cafodd wybod ddydd olaf mis Hydref eleni fod Uchel Lys y wlad wedi ei dyfarnu yn ddiuog o dorri'r Ddeddf Cabledd.

Ac felly, wedi naw mlynedd dan glo cafodd ei rhyddhau o'r carchar. Ond nid yw hynny'n golygu ei bod yn rhydd chwaith gan fod ei bywyd mewn perygl, yn rhannol am fod addewid o arian wedi ei roi i unrhyw un a fyddai'n ei llofruddio. Byddai'n dda pe gallai hi ffoi gyda'i theulu i un o'r gwledydd sydd wedi cynnig noddfa iddi, ond hyd yma gwaharddwyd hi rhag gwneud hynny gan lywodraeth ei gwlad.

Yn naturiol, diolchwn am gryfder fydd Aasia Bibi a'i pharodrwydd i dystio i'r Arglwydd Iesu Grist trwy'r cyfan a ddiodeffodd. Diolch i Dduw am y gras a'r nerth sydd wedi ei chynnal. Daliodd llawer i weddio drosti ers iddynt glywed ei hanes. Ac yn ogystal â gweddio drosti mae llawer iawn o bobl wedi ymgyrchu'n ddiflino er mwyn dwyn perswad ar lywodraeth Pacistan i'w rhyddhau ac i ddiwygio neu ddileu'r ddeddf a ddefnyddiwyd i'w dedfrydu yn y lle cyntaf.

Rwy'n ofni na lwyddais i wneud hynny ac mai'n achlysurol y cofiais amdani ers i mi ysgrifennu'r erthygl yn 2001. Ond wedi iddi gael ei rhyddhau, a chan wybod ei bod hi a'i theulu'n parhau mewn perygl mawr, y mae cyfle o'r newydd heddiw i gofio am y wraig ddewr hon ac i eiriol drosti.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnysaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn (A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan Mr Dafydd Iwan. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Yn Nhŷ Elidir y mae'r oedfa.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Mr Dafydd Iwan.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg R O Jones.

Nid oes oedfa yn Nant Peris.

Cofion

Anfonwn ein cofion cynhesaf at ein holl aelodau sydd heb fod yn dda ar hyn o bryd. Mae rhai yn yr ysbyty ac eraill gartref ar ôl cyfnod yn yr ysbyty. 'Yn dy drugaredd, Dad nefol, bydd yn gysur ac yn nerth i bawb sy'n dioddef poen; bydd yn ddiddanwch ac yn obaith i

Balm o Salm



'O Dduw fy moliant, paid â thewi. Oherwydd agorasant eu genau drygionus a thwyllodrus yn fy erbyn, a llefaru wrthyf â thafod celwyddog, a'm hamgylchu â geiriau casineb, ac ymosod arnaf heb achos. Am fy ngharedigrwydd y'm cyhuddant, a minnau'n gweddio drostynt. Talasant imi ddrwg am dda, a chasineb am gariad ...

Deuthum yn gyff gwawd iddynt; pan welant fi, ysgydwant eu pennau. Cynorthwya fi, O ARGLWYDD fy Nuw, achub fi yn ôl dy drugaredd, a gad iddynt wybod mai dy law di ydyw, mai ti, ARGLWYDD, a'i gwnaeth. Pan fônt hwy'n mellithio, bendithia di; cywilyddier fy ngrwthwynebwy, a bydded dy was yn llawen'

(Salm 109:1-5; 25-28).

bawb sy'n drist a lluddedig; a bydd yn oleuni ac yn fywyd i bawb sydd yn ofnus ac yn bryderus.'

Coffâd

Mae dau neu dri choffâd yn weddill o'r misoedd na chyhoeddwyd *Gronyn* yn gynharach eleni.

Miss Doreen Ward

'Anti Doreen' fu Miss Doreen Ward i mi erioed am ei bod hi a Mam yn bennaf ffrindiau ar hyd eu hoes. Bu farw yn ei chartref, 53 Maes Padarn, ddydd Mawrth, Mawrth 20 yn 93 mlwydd oed. Bu'n gweithio am flynyddoedd yn siop fara Pen Bryn yn Llanberis. Yr oedd yn wraig annwyl, garedig a hwyliog. Roedd yn ffrind ffyddlon, yn gymdoges dda, yn fawr ei gofal am bawb, ac yn chwaer a modryb a ffrind arbennig i'w theulu. Yr oedd yn berson distaw a phreifat; yn barchus iawn o bawb; ac yn fawr ei pharch o fewn y gymdogoeth.

Cydymdeimlwn â'i chwaer, Thelma a'r teulu ehangach yn eu colled.

Cynhaliwyd ei hangladd yn ei chartref ac ym Mynwent Nant Peris ddydd Sadwrn, Mawrth 24 dan arweiniad y Parchg Huw John Hughes, Porthaethwy. Diolch yn fawr iddo am arwain y gwasanaeth yn fy lle. Yn naturiol, yr oedd yn ofid i mi nad oedd modd i mi wneud hynny gan fod yr angladd yr un diwrnod ac o fewn ychydig oriau i angladd Falmai

Rehoboth a Capel Coch

Ddydd Sul, Tachwedd 4, pleidleisiodd aelodau Rehoboth yn unfrydol o blaid y bwriad i uno ag eglwys Capel Coch yn Capel Coch. Fel yr eglurwyd yn y ddwy oedfa'r Sul diwethaf, bydd cyfle fore heddiw i aelodau Capel Coch bleidleisio o blaid y bwriad i uno.

Os bydd y bleidlais yn gadarnhaol, bydd angen i aelodau'r ddwy eglwys, ddydd Sul, Rhagfyr 2, bleidleisio yn derfynol o blaid yr uno. Trwy wneud hynny, bydd adnoddau ariannol Rehoboth yn cael eu diogelu ar gyfer yr eglwys unedig (yn hytrach na'u bod yn mynd i'r enwad yn ganolog). Mae felly o fantais yn lleol i uno'r ddwy eglwys.

Bydd y bleidlais ar Ragfyr 2 yn Capel Coch yn y bore ac yn Rehoboth yn y pnan. Bydd pleidleisiau'r ddwy eglwys yn cael eu cyfrif gyda'i gilydd yn hytrach nag ar wahân.

Teams 4 U

Diolch yn fawr am y bocsys esgidiau llawn o anrhegion Nadolig a gaiff eu hanfon i blant a phobl ifanc a theluoedd yn Romania, Belarws, Bosnia a'r Wcrain trwy law'r elusen Teams4U. Caiff y bocsys eu danfon i Gyffordd Llandudno yn ystod yr wythnos, ac erbyn diwedd yr wythnos byddant ar eu ffordd dramor mewn pryd ar gyfer y Nadolig.

Ffair Nadolig Bethlehem

Cynhelir Ffair Nadolig Capel Bethlehem, Talybont am 6.30 o'r gloch, nos Fercher, Tachwedd 28. Bydd croeso cynnes i bawb.

Ffair Nadolig Capel Coch

Cynhelir Ffair Nadolig Capel Coch am 2.00 o'r gloch ddydd Mawrth, Tachwedd 27. Bydd amryw o stondinau, a derbyn-nir rhoddion neu nwyddau ar gyfer hamperau ac ati. Byddwn yn falch o gyfraniadau at y stondinau cacennau, planhigion, addurniadau Nadolig, tegannau a thlws dlysau mewn cyflwr da.

Nid oes angen llyfrau na bric a brac (neu nwyddau ail law) y tro hwn.

Y pris mynediad fydd £1 (yn cynnwys paned a bisged); a bydd yr elw cyfan at Gronfa'r Capel.

Cyngerdd Nadolig

Yn dilyn llwyddiant mawr cyflwyniad 'Gair yn Gnawd' yn Capel Coch adeg y Nadolig y llynedd mae'r cwmni wedi ail ffurfio ac yn paratoi ar gyfer Cyngerdd Nadolig.

Bydd Côr Capel Coch a Chyfeilion yn cynnal y cyngerdd hwnnw yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis am 7.00 o'r gloch, nos Sul, Rhagfyr 23. Nodwch y dyddiad.

Bydd tocynnau ar werth yn fuan; a bydd yr elw at waith Cynllun Efe.

CIC

Cynhelir CIC yn Capel Coch nos Wener nesaf, Tachwedd 23. Byddwn yn mynd i Ganolfan Glasfryn, Y Ffôr, i'r Bowll 10, nos Wener, Rhagfyr 14.